**<u>Gwrandawiad Camymddwyn Cyflym – Canlyniad</u>**

**Swyddog:** Y Cyn DI 1875 Emma Gardner
**Cyfeirnod yr Achos:** CM/33/22
**Dyddiad y Gwrandawiad:** 17 Awst 2026
**Cadeirydd:** Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman

Rwyf eisoes wedi penderfynu fod ymddygiad y cyn DI Gardner yn cyfateb i gamymddwyn difrifol.

Wrth benderfynu ar y canlyniad, rwyf wedi defnyddi'r ymdriniaeth strwythuredig a amlinellir yng Nghanllawiau'r Coleg Plismona ar Ganlyniadau, sef:

- Asesu difrifoldeb y camymddygiad
- Cadw diben gwrandawiadau camymddygiad mewn cof
- Dewis y canlyniad sy'n cyflawni'r diben hwnnw fwyaf priodol.

Rwyf wedi ystyried amgylchiadau'r achos, y dadleuon a wnaed ar ran yr Awdurdod Priodol, cyfaddefiadau a dadleuon y cyn swyddog, y cofnod gwasanaeth oedd ar gael i mi a'r holl dystiolaeth a oedd yn y bwndel, yn ofalus.

Diben gwrandawiadau camymddygiad yr heddlu ydy cynnal hyder y cyhoedd yn, ac enw da'r gwasanaeth heddlu, cynnal safonau uchelgeisiol plismona a gwarchod y cyhoedd. Rhaid i'r ystyriaethau gael blaenoriaeth dros y canlyniadau personol i'r swyddog unigol.

**Asesu Difrifoldeb**

<u>Beiusrwydd</u>

Mae beiusrwydd y cyn DI Garden yn hynod uchel.

Cafodd y cyn DI Garden ei heuogfarnu yn dilyn achos llys yn Llys y Goron am gamddefnyddio cyfrifiaduron. Mae'r euogfarn yn sefydlu fod yr ymddygiad troseddol wedi digwydd heb amheuaeth.

Mae Canllawiau'r Coleg Plismona wedi ei gwneud yn glir ei bod yn annerbyniol i swyddogion heddlu, sydd wedi'u hymddiried hefo gorfodi'r gyfraith, dorri'r gyfraith eu hunain. Mae unrhyw euogfarn droseddol yn ddifrifol ac yn debygol o effeithio'n andwyol ar hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae'r canllawiau'n nodi ymhellach fod camddefnyddio systemau cyfrifiadurol a gwybodaeth heddlu gyfrinachol yn fater o bryder penodol oherwydd mae gan y cyhoedd hawl derbyn fod gwybodaeth a geir gan yr heddlu yn cael ei gwarchod a'i defnyddio at ddibenion plismona cyfreithiol yn unig.

Nid gwall neilltuol neu gam farn dros dro oedd hyn. Digwyddodd y camymddygiad dros gyfnod hir o oddeutu naw mis ac roedd yn cynnwys mynediad anawdurdodedig am naw mis ac roedd yn cynnwys mynediad anawdurdodedig mynych at systemau'r heddlu nifer o weithiau. Mae'r dystiolaeth ger fy mron yn dangos fod yr ymddygiad yn fwriadol a hirhoedlog.

Rwyf yn rhoi pwysau sylweddol ar y ffaith fod y cyn DI Gardner wedi bod yn rheng Ditectif Arolygydd. Fel uwch swyddog roedd hi mewn swydd ymddiriedol a chyfrifol ac roedd disgwyl iddi arwain drwy esiampl. Mae Canllawiau'r Coleg Plismona yn ei gwneud yn glir fod cyfrifoldeb dros arweinyddiaeth a statws uwch yn cynyddu beiusrwydd lle mae camymddygiad yn digwydd.

Roedd y camymddygiad yn cynnwys camddefnyddio mynediad breintiedig at wybodaeth yr heddlu; dadlennu gwybodaeth a gafwyd o systemau'r heddlu; ac ymddygiad a oedd yn tanseilio'r hyder a roddwyd yn swyddogion heddlu i reoli gwybodaeth sensitif yn gyfreithiol a phriodol. Yn fy marn i, mae hyn yn dangos camddefnyddio swydd ac ymddiriedaeth yn ddifrifol.

Niwed

Rwyf yn dod i'r casgliad fod y niwed sy'n codi o'r camymddygiad hwn yn sylweddol.

Tra nad oedd yr achos hwn yn cynnwys anaf corfforol, mae Canllawiau'r Coleg Plismona yn mynegi'n glir fod niwed yn ymestyn tu hwnt i effaith bersonol. Mae'n cynnwys niwed i hyder y cyhoedd, enw da plismona ac uniondeb systemau ac ymchwiliadau'r heddlu.

Mae'r cyhoedd yn iawn i ddisgwyl i swyddogion heddlu gael mynediad at wybodaeth gyfrinachol dim ond mae diben plismona cyfreithlon. Mae hyder mewn plismona yn dibynnu ar ymddiriedaeth na cheir mynediad at wybodaeth sensitif am resymau personol ac na chaiff ei dadlennu'n amhriodol.

Mae ymddygiad y cyn DI Gardner wedi niweidio'r ymddiriedaeth honno. Roedd gan y camymddygiad y posibilrwydd o beryglu ymchwiliadau, tanseilio hyder yn niogelwch gwybodaeth yr heddlu, a dwyn anfri ar enw da Heddlu Gogledd Cymru a'r gwasanaeth heddlu ehangach.

Byddai aelod rhesymol a gwybodus o'r cyhoedd yn bryderus iawn fod uwch swyddog heddlu wedi cael mynediad i systemau'r heddlu yn fynych heb awdurdod ac wedi hynny wedi cael eu heuogfarnu o drosedd yn codi o'r ymddygiad hwnnw. Rwyf yn dod i'r casgliad fod y niwed i enw da a achoswyd gan y camymddygiad hwn yn sylweddol.

Ffactorau Gwaethygol

Rwyf yn nodi'r ffactorau gwaethygol canlynol:

- Arweiniodd yr ymddygiad at euogfarn droseddol yn dilyn achos yn Llys y Goron lle bu dadlau.
- Roedd yr ymddygiad yn fwriadol a hirhoedlog dros gyfnod hir.
- Roedd y camymddygiad yn cynnwys mynediad anawdurdodedig mynych at systemau'r heddlu sawl gwaith.
- Roedd y swyddog mewn swydd uwch arweinyddiaeth fel Ditectif Arolygydd ac roedd disgwyl iddi weithredu fel esiampl i bobl eraill.
- Roedd y camymddwyn yn cynnwys gwybodaeth heddlu gyfrinachol a ymddiriedwyd i'r swyddog ond at ddibenion plismona cyfreithiol.

- Roedd yr ymddygiad yn cyfateb i gamddefnyddio swydd ac yn gwyro'n sylweddol o'r safonau disgwyliedig gan swyddog heddlu.

<u>Ffactorau Lliniarol</u>

Rwyf wedi ystyried y lliniariad sydd ar gael i'r cyn DI Gardner yn ofalus.

Rwyf yn nodi ei bod wedi cwblhau dros 26 mlynedd o wasanaeth hefo Heddlu Gogledd Cymru, gan godi'r rhengoedd i fod yn Dditectif Arolygydd Dros Dro ac wedi derbyn cymeradwyaethau a llythyrau o werthfawrogiad yn ystod ei gyrfa. Rwyf hefyd yn nodi nad oes ganddi achosion disgyblu blaenorol wedi'u cofnodi yn ei herbyn hi.

Rwyf yn ystyried ymhellach fod y cyn swyddog wedi derbyn y ffeithiau, wedi cyfaddef fod ei hymddygiad yn cyfateb i gamymddwyn difrifol ac wedi ymddiswyddo cyn y gwrandawiad hwn.

Mae'r rhain i gyd yn faterion a ellir fod yn liniariadau, ac rwyf wedi eu hystyried nhw.

Fodd bynnag, mae Canllawiau'r Coleg Plismona a chyfraith achosion sefydledig yn mynegi'n glir nad oes llawer o bwys yn cael ei roi ar liniariad personol os ydy camymddwyn difrifol wedi'i brofi. Mae hyn oherwydd mai'r ystyriaeth gyffredinol ydy cynnal hyder y cyhoedd ac enw da'r heddlu.

Tra mae gwasanaeth blaenorol y cyn DI Gardner o bwys, ni all fod yn drech na difrifoldeb yr ymddygiad troseddol wrth gamddefnyddio systemau a gwybodaeth yr heddlu yn fynych. Nid wyf chwaith yn gallu dod o hyd i unrhyw amgylchiadau eithriadol i gyfiawnhau canlyniad llai llym.

**Ystyried y Canlyniad**

Rwyf wedi ystyried yr ystod lawn o ganlyniadau sydd ar gael.

Yn achos cyn swyddog sy'n dod ger gwrandawiad camymddwyn cyflym, y cwestiwn perthnasol ydy a fyddai'r cyn swyddog wedi cael ei diswyddo'n ddirybudd pe byddai wedi parhau'n swyddog yn gwasanaethu.

Rwyf wedi ystyried a allai canlyniad llai llym gynnal hyder y cyhoedd yn briodol, cynnal safonau proffesiynol a gwarchod enw da plismona.

Rwyf wedi dod i'r casgliad na allai wneud hynny.

Mae Canllawiau'r Coleg Plismona'n nodi'n benodol y gall camddefnyddio data'r heddlu a gwybodaeth gyfrinachol fod yn ymddygiad sy'n cyfiawnhau diswyddiad mewn achosion difrifol. Mae'r ffactorau gwaethygol a nodir o fewn y canllawiau fel rhai sy'n cyfiawnhau canlyniad mwy difrifol yn bresennol yn yr achos hwn, gan gynnwys mynediad mynych, dadlennu gwybodaeth a camddefnyddio gwybodaeth sensitif yr heddlu at ddibenion amhriodol.

Rwyf yn fodlon y byddai aelod rhesymol a gwybodus o'r cyhoedd yn disgwyl diswyddiad yn yr amgylchiadau hyn. Byddai dod i unrhyw gasgliad arall, yn fy marn i, yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona'n ddifrifol a methu cynnal y safonau sydd i'w disgwyl gan swyddogion heddlu.

**Penderfyniad (Canlyniad)**

Wedi ystyried yr holl dystiolaeth, y dadleuon cyfreithiol, cofnod gwasanaeth y swyddog, Canllawiau'r Coleg Plismona ar Ganlyniadau a diddordeb ehangach y cyhoedd yn ofalus, rwyf yn fodlon fod y camymddygiad yn gwbl anghydnaws hefo parhau i wasanaethu fel swyddog heddlu.

Mae difrifoldeb y camymddwyn, y beiusrwydd hynod uchel, y niwed a achoswyd i hyder y cyhoedd, y ffactorau gwaethygol sy'n bodoli neu'r ychydig bwysau y gellir yn briodol ei roi i'r ffactorau lliniarol sydd ar gael yn fy arwain at y casgliad clir mai diswyddiad ydy'r unig ganlyniad priodol a chymesur.

Felly, canlyniad y Gwrandawiad Camymddwyn Cyflym hwn ydy y byddai'r cyn DI Emma Gardner wedi cael ei diswyddo heb rybudd pe bai dal i wasanaethu fel swyddog heddlu. Bydd ei henw'n cael ei roi ar Restr Unigolion Gwaharddedig y Coleg Plismona.

**Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman KPM**
**17 Awst 2026**